

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid ar nos Fercher 25ain o Ebrill 2018
yn Swyddfa, Parc Menai am 6.30pm.

Agenda

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-03-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

- Cais Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd ?? Angen eu manolen ariannol

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri gwair Mawrth
Llyw Cymru	Rhent ¼ Cyntaf
Cyflog	Mis 1 Ebrill
HMRC	Mis 1 £90-60
Dwr Cymru	Dwr y Swyddfa

I'w trafod hefyd

Newid graddfeydd Tal Cyflog Cenedlaethol

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos

Datblygiad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prydles y Swyddfa

Cofnodion Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Mawrth 28^{ain} 2018

Presennol Cyng D W Jones, D Jones-Morris, C E Hughes, B Jones, J Pierce, B Jones a L James

Clerc Elwyn Jones

Derbyn cofnodion cyfarfod 07/03/18 oedd wedi ei ail-drefnu o 28ain o Chwefror oherwydd y tywydd garw

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol yn dangos yr incwm a gwariant Mawrth 'Roedd £18,048.13 yn y banc ond bod £5,645.86 wedi ei dalu allan ond heb eu clirio £12,402.27 felly oedd ein sefyllfa ariannol gywir.

Ceisiadau Nawdd

Clwb loga Glasinfryn – Ailgyflwyno cais wedi ei arall eirio gan nad oedd hawl ariannu tuag at gyflog Cymeradwyo Talu £300.00

- Cais Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd - Cais ar gyfer nawdd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 oedd hwn felly ni fyddai posib ei ystyried heno. Nid oedd Mantolen ariannol wedi ei anfon chwaith felly y Clerc i gysylltu yn ol a'r clwb.

Taliadau angen sylw Cytunwyd talu

Cyngor Gwynedd £1385.86 am dorri gwair ychwanegol 17-18 - D E Williams £3060 am ac am osod Cysgodfan Bws Rhydygroes a gosod Hysbysfyrdau - Unllais Cymru £361 am Aelodaeth - Gareth Hughes £296 am drwsio Tô y Capel ag adnewyddu mainc y Fynwent - Cyflog Mis 12 Mawrth £362.90 - HMRC Treth Incwm Mis 12 £90-80 – Mrs E A Williams Gofalwraig Hydref 2017 i Mawrth 2018 2 chwarter @£75 = £150 a hefyd Gareth Hughes £85.69 am dynnu hysbysfwrdd Glasinfryn ei drwsio a'i osod yn porch y Capel

I'w trafod hefyd

Adolygu Rheolau Sefydlog Nodwyd fod argymhelliad, parthed ein Rheolau Sefydlog, wedi ei gofnodi yng nghyfarfod Blynyddol 2016 ag a gafwyd yn gywir yn 2017 yn dal heb ei ystyried gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn sef bod angen edrych ar eiriad 13.5 o'r Rheolau sefydlog sy'n cyfeirio at hyd penodiad Cadeirydd y Cyngor Llawn ag yn sgil hynny yr Is Gadeirydd

Cytunwyd i'w gynnwys ar Agenda y Cyngor Llawn nesaf ar 12fed o Ebrill

Prydles canolfan Penrhos / Gamlins Yn dilyn y datblygiadau ynglyn ag Ysgol Y Faenol a effaith hynny ar Y Ganolfan teimlwyd fod arwyddo y brydles a chael cyfarwyddyd cyfreithiol yn hanfodol ag yn fater o frys bellach.

Gan fod ganddynt brofiad o ddelio a Chwmni Gamlins / Prydlesoedd eraill **cynnigwyd fod Cyng Lowri James, Cyng Dafydd Jones-Morris ynghyd a'r Clerc a'r Cadeirydd presennol y Cyngor Llawn Cyng Cynrig E Hughes yn cyfarfod a Mr Vernon Oliver o Cwmni Gamlins**

Clerc i drefnu dyddiad

Prydles y Swyddfa

Y Clerc wedi cysylltu gyda Colin Williams yn Ty Menai ynglyn ag adnewyddu prydles y Swyddfa.

Addewid y bydd yn dod yn ol atom gyda manylion ymhen 2 wythnos

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15